

## WILLIAM, DAVID (1720/1 - 1794), emynydd

**Enw:** David William  
**Dyddiad geni:** 1720/1  
**Dyddiad marw:** 1794  
**Plentyn:** Israel William  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** emynydd  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Barddoniaeth  
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd ym mhlwyf Llanedi Sir Gaerfyrddin. Ef, o bosibl, yw'r David William, 'exhorter in Llanfynydd' a aeth i gadw ysgol, yn ôl adroddiad James Williams i'r sasiwn Fethodistaidd, yn 1743. Gwyddys ei fod yn gynghorwr, a hawdd yw ei gymysgu â [David Williams](#), Llyswyrny. Trigai yn 'Llandeilo fach, yn Sir Forgannwg' pan gyhoeddodd ei lyfryn cyntaf yn 1760, ond '*gynt* o Llandeilo Talybont' sydd ar ddalen-deitl llyfryn a gyhoeddodd yn 1777 'yn y 56 o Oedran, a thri Mis.' Bu'n athro cylchynol yma a thraw am rai blynyddoedd. Hanoedd ei wraig o ffermdy Nant-y-moel, plwyf Llangyfelach (yr oedd iddo fab, Israel William, yn Llangyfelach), ac yn ôl pob hanes gwraig annynad oedd hi. Dywedir mai o'i hachos y bu raid iddo ymadael â'r Methodistiaid. Ymunodd â'r Bedyddwyr, a bedyddiwyd ef wrth bont Llanbedr-y-fro, Morgannwg, 29 Mehefin 1777. Yr oedd yn un o sefydlwyr eglwys Fedyddiedig Croes-y-parc ac yn bregethwr ynddi. Bu farw 1 Hydref 1794, a'i gladdu yng Nghroes-y-parc.

Y mae ei emynau (megis 'Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau', etc.) mewn bri mawr o hyd. Ei gyhoeddiad cyntaf oedd *Golwg y Fyddloniaid ar Degwch a Gogoniant Jesu Crist* (Caerfyrddin, 1760). Cyhoeddodd gyfres enwog wedyn yn dwyn y teitl *Gorfoledd ym Mhebyll Seion* (c. 1760-2, Caerfyrddin; 1777, Caerfyrddin; 1778, Aberhonddu; a 1778, Aberhonddu). Cyhoeddwyd y rhannau yn un gyfrol dan yr un teitl yn 1782 (Aberhonddu), a 'Trydydd Argraffiad' gydag ychwanegiad yn 1786 (Caerfyrddin). Ceir argraffiad Saesneg yn 1779, sef *Joy in the Tents of Zion*  (Aberhonddu). Llyfrynau eraill o'r eiddo yw *Diferion o Ffynnon Iechydwrïaeth* (Caerfyrddin, 1777), *Hymnau Priod-ferch y Brenin Alpha* (Caerfyrddin, d.d.), *Gwin i'r Diffygiol* (Caerfyrddin, d.d.), a *Myfyrdod y Pererin* (Caerfyrddin, d.d.). Cyhoeddodd rai caneuon hefyd, ynghyd â nifer o farwnadau.

### Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

### Ffynonellau

*Llawysgrifau Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, yng ngofal Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, Trev. Group, N.L.W. 3005

H. Bevan, *Ychydig hanes neu goffadwriaeth am amryw bethau neillduol a gymmerasant le ymhlith corph y Methodistiaid Calфинаidd yn ac o'u dechreuad, sef oddiar yr amser y daeth Mr. Howel Harries i bregethu yn ei droion cyntaf i amryw barthau o Sir Forgannwg a'i chyffiniau* (Abertawe 1838), 24

*Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry: o amser yr Apostolion, hyd y flwyddyn hon: yn ddwy ran* (1778), (ail arg.), 579  
*Yr Adolygydd*, 1851, 334

*Y Traethodydd*, 1867, 168; 1872, 293

*Seren Gomer*, 1904, 44, 209

*Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calфинаidd*, xxii, 115; xxxiv, 47

*Y Geninen*, 1911, 10

### Darllen Pellach

Nathaniel Williams, *Gorchfygedig-gan, er coffadwriaeth am Dafydd William o Lanbedr-ar-fro; Sir Forgannwg, yr hwn a ymadawodd â'r byd Tachwedd 5, 1794. Yn 79 mlwydd o'i oed* (Trefecca 1795)

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: [12184344](#)

Wikidata: [Q18670941](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

